| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 5 Tachwedd 2014 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau<br><br>Jackie Walley, Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Clare O'Gorman, Swyddog Cwynion Corfforaethol |
| **Teitl:** | Eich Llais - defnyddio adborth cwsmeriaid |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Bydd yr adroddiad yn rhoi trosolwg i’r Pwyllgor o weithgareddau ymgysylltu â chwsmeriaid ar draws yr awdurdod ac enghreifftiau penodol o wasanaethau yn defnyddio adborth cwsmeriaid i gynllunio a darparu gwasanaethau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad wedi ei lunio yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ynglŷn â sut mae'r awdurdod yn ymateb i adborth cwsmeriaid ac yn gweithredu yn sgil hynny.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn rhoi sylwadau ar ddefnydd yr awdurdod o adborth gan gwsmeriaid.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Fe ddylai parhau i chwilio am ffyrdd i wella ein gwasanaethau fod yn rhan hanfodol o'n gweithgaredd busnes. Mae defnyddio adborth cwsmeriaid yn y broses hon yn bwysig iawn ac fe all ddarparu cyfleoedd i wella cynllunio a darparu gwasanaethau yn ogystal â magu hyder y cyhoedd bod yr awdurdod yn gwrando ac yn gweithredu ar adborth cwsmeriaid.

Gofynnwyd i bob gwasanaeth ddarparu enghreifftiau o sut maent yn ymgysylltu â'u cwsmeriaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio adborth wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Gweler atodiad 1 am fanylion.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cynllun Eich Llais yn cyfrannu'n uniongyrchol at y nod corfforaethol canlynol:

*Cyngor rhagorol, agos at y gymuned.*

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r holl gostau sy'n ymwneud ag adborth cwsmeriaid yn cael eu hamsugno yn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i’r adroddiad**

Amherthnasol.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Adroddiadau misol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan adrodd yn ôl bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad, ac adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes goblygiadau ariannol amlwg yn sgil yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Drwy beidio â delio ag adborth cwsmeriaid yn effeithiol, efallai y bydd enw da’r cyngor yn dioddef.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae hwn yn bapur ar gyfer gwybodaeth yn hytrach nag ar gyfer penderfyniad.